# CAERDYDD GLASUROL
# CARDIFF CLASSICAL
# 2022/23



Sheku Kanneh-Mason ©Jake Turney

St David's Hall
Neuadd Dewi Sant

The National Concert Hall of Wales
Neuadd Gyngerdd Genedlaethol Cymru

**029 2087 8444**
**www.stdavidshallcardiff.co.uk**

Ar ôl gweld cyngherddau cerddorfaol gwych yn dod yn eu holau i Gaerdydd yn 2021-2022, rydym mewn hwyl dathlu, ac yn nhymor 2022-23 mae gennym fwy o le fyth i wenu. Choeliech chi fawr – ddeugain mlynedd yn ôl y bu i Neuadd Dewi Sant, Neuadd Gyngerdd Genedlaethol Cymru, agor ei drysau led y pen a rhoi i Gaerdydd ac i Gymru neuadd gyngerdd i ymfalchïo ynddi, ac i gerddorfeydd gwadd acwsteg gyda goreuon y byd i berfformio ynddi.

Eleni, gael i ni ddathlu'n grand o'n coeau, mae'n wefr i ni ddod â thymor bendigedig o gerddoriaeth eithriadol i chi, ac i wneud hyn yn fwy o ddathliad fyth rydym wrth ein boddau o allu cynnig prisiau rhatach o dipyn i chi fel bod dod i'r gyfres raenus yma'n fwy fforddiadwy nag erioed. Mae yma fwy na phum cant o seddi ar gael am ddim ond ugain punt a llai, cannoedd am ddim ond decpunt, felly cofiwch godi tocynnau rhag blaen i ddathlu deugain mlynedd o gerddoriaeth dan gamp yn Neuadd Gyngerdd Genedlaethol Cymru!

## O FRWSEL I REYKJAVIK... DEUNAW CYNGERDD GYDA'R GORAU GEWCH CHI

Pa un ai'r Clasurol, y Rhamantaidd neu'r ugeinfed ganrif sydd at eich dant chi, does dim dwywaith nad ydi'r Gyfres Caerdydd Glasurol eleni'n wledd. Mae yma gerddorfeydd yn ymweld o wlad Belg, Gwlad yr Iâ a'r Weriniaeth Tsiec, ynghyd â rhai o unawdwyr amlycaf ein dydd, ac rydym yn siwr y bydd arnoch eisiau dod atom ni i rai o'r cyngherddau ar gynnig – neu hyd yn oed y cwbl – eleni, a ninnau'n dathlu pen-blwydd mawr.

### UNAWDWYR RHYNGWLADOL

Mae yma gymanfa o unawdwyr, yn sêr pob copa walltog, yn cynnwys y pianyddion **Martin James Bartlett**, **Benjamin Grosvenor**, **Daniel Ciobano**, **Stephen Hough**, **Paul Lewis** a **Yeol Eum Son**, y ffidleriaid **Nicola Benedetti**, **Bomsori Kim**, **Simone Lamsma**, **James Ehnes** a **Vilda Frang** a'r soddgrythorion **Laura van der Heijden** a **Sheku Kanneh-Mason**. Ymhlith yr uchelfannau mae:

### CYCHWYN CYFAREDDOL Y TYMOR

Mae'r Gerddorfa Breswyl, sef **Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC**, yn croesawu **Ryan Bancroft** a'r pianydd ifanc gwefreiddiol **Yeol Eum Son** i gyngerdd agoriadol y tymor.

### BOHEMIAN RHAPSODY

Daw'r soddgrythor arobryn **Laura van der Heijden** at **Gerddorfa Ffilharmonig Brno** fawr ei bri i wledd o gerddoriaeth Tsiecoslofacia a Lloegr.

### O FORLUN TYMHESTLOG I SINFONIETTA FRWD

Dan y maestro o Tsieciad **Tomáš Hanus**, mae **Cerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru** yn cyflwyno rhaglen odidog gan bedwar o gyfansoddwyr mawr byd opera.

### BROADWAY I BOLÉRO

**John Wilson** fydd yn dal awenau **Sinfonia of London** mewn rhaglen foethus yn cynnwys **Martin James Bartlett** a Rhapsody in Blue Gershwin.

### ANGERDD A GWLADGARWCH

Mae teimladau o eigion calon yn dygyfor drwy raglen gan y **Philharmonia Orchestra** o weithiau gan Berlioz, Bloch a Sibelius, dan gyfarwyddyd **Jukka-Pekka Saraste** ac yn rhoi llwyfan i **Sheku Kanneh-Mason**.

### Y GWANWYN A'R HYDREF

Croeso'n ôl i **Mirga Gražinytė-Tyla** a'r **City of Birmingham Symphony Orchestra** gydag Elgar a Schumann, a'r seren o ffidler **Vilde Frang**.

### GWLAD TÂN AC IÂ

Cyfle prin i glywed **Cerddorfa Symffoni Gwlad yr Iâ** gyda'i phrif arweinydd **Eva Ollikainen** a **Stephen Hough** yn chwarae Beethoven.

### Y FFINDIR YN DEFFRO

Yr arweinydd o Ffiniad **Dalia Stasevska** yn cyfarwyddo **The Hallé** mewn rhaglen rhy dda i'w cholli o Sibelius a Beethoven gyda thri o artistiaid amlycaf y byd.





After the return to Cardiff of brilliant orchestral concerts in 2021-2022, we're in the mood to celebrate, and in the 2022-23 season we've got even more reason to be smiling. Believe it or not it was forty years ago that St David's Hall, The National Concert Hall of Wales threw open its doors giving Cardiff and Wales a concert hall to be proud of and visiting orchestras one of the world's finest acoustics to perform in.

This year to help us celebrate in style we are thrilled to be bringing you a fabulous season of exceptional music, and to make it even more of a celebration we are delighted to be able to considerably reduce the prices to make attending this high-quality series more affordable than ever. With more than 500 seats available at just £20 and below, with hundreds at under £10, book early to celebrate forty years of outstanding music at the National Concert Hall of Wales!

## FROM BRUSSELS TO REYKJAVIK... 18 WORLD CLASS CONCERTS

Whether your taste is for Classical, Romantic or 20th century, this year's Cardiff Classical Series is simply stunning. With visiting orchestras from Belgium, Iceland and the Czech Republic, together with some of today's most distinguished soloists, we're certain you'll want to join us for some or even all the concerts on offer in this birthday year.

### INTERNATIONAL SOLOISTS

A stellar line up of soloists includes pianists **Martin James Bartlett**, **Benjamin Grosvenor**, **Daniel Ciobano**, **Stephen Hough**, **Paul Lewis** and **Yeol Eum Son**, violinists **Nicola Benedetti**, **Bomsori Kim**, **Simone Lamsma**, **James Ehnes** and **Vilda Frang** and cellists **Laura van der Heijden** and **Sheku Kanneh-Mason**. Highlights include:

### SPELLBINDING SEASON OPENER

Orchestra in Residence **BBC National Orchestra of Wales** welcomes **Ryan Bancroft** and thrilling young pianist **Yeol Eum Son** for the opening concert of the season.

### BOHEMIAN RHAPSODY

Award-winning cellist **Laura van der Heijden** joins the renowned **Brno Philharmonic Orchestra** for a feast of Czech and English music.

### STORMY SEASCAPE TO ROUSING SINFONIETTA

Under Czech maestro **Tomáš Hanus**, the **Orchestra of Welsh National Opera** present a glorious programme from four great operatic composers.

### BROADWAY TO BOLÉRO

**John Wilson** will put the **Sinfonia of London** through its paces in a sumptuous programme featuring **Martin James Bartlett** and Gershwin's Rhapsody in Blue.

### PASSION & PATRIOTISM

Powerful emotions surge through a **Philharmonia Orchestra** programme of Berlioz, Bloch and Sibelius, directed by **Jukka-Pekka Saraste** and featuring **Sheku Kanneh-Mason**.

### SPRING & AUTUMN

**Mirga Gražinytė-Tyla** and the **City of Birmingham Symphony Orchestra** make a welcome return with Elgar and Schumann, and star violinist **Vilde Frang**.

### LAND OF FIRE AND ICE

A rare chance to hear the **Iceland Symphony Orchestra** with its chief conductor **Eva Ollikainen** and **Stephen Hough** playing Beethoven.

### FINLAND AWAKES

Finnish conductor **Dalia Stasevska** directs **The Hallé** in an unmissable programme of Sibelius and Beethoven with three of the world's most distinguished artists.

# TANYSGRIFIWCH I'N PECYNNAU CYNGHERDDAU NI NAWR

## MANTEISION PRYNU PECYN:

- Gallwch arbed hyd at 30% ar eich tocynnau ac, o'u prynu nhw'n awr, fe gewch chi dalu dros chwe mis (yn ddi-log), gan wneud i'ch arian fynd ymhellach (does rhaid i chi ond gofyn yn y Swyddfa Docynnau am y ffurflen archeb reolaidd)
- Y dewis cyntaf o seddi i'r holl gyngherddau eleni
- Cerdyn Disgownt Tanysgrifiwr
- Prynu tocynnau ychwanegol nawr, neu'n nes at yr adeg, i'ch ffrindiau a'ch teulu, am eich pris disgownt tanysgrifio
- Prynu eich rhaglenni ymlaen llaw a chael disgownt – £3.00 ymlaen llaw, £3.50 ar y diwrnod.

## MANTEISION PRYNU TOCYNNAU I'R HOLL GYNGHERDDAU:

- Gwahoddiad i'n parti ni ar noson agoriadol y tymor
- Dau gyngerdd awr ginio am ddim o'ch dewis
- Cerdyn disgownt yn rhoi hawl i chi gael diodydd poeth a thameidiau i aros pryd 10% yn rhatach yn y Lolfa Jin a'r barrau
- Y disgownt tanysgrifio tymor cyfan mwyaf rydym wedi'i gynnig erioed, gyda gwneud mwynhau'r cyngherddau i gyd yn fwy fforddiadwy fyth
- Blwyddyn gyfan o gyngherddau gwych i edrych ymlaen atynt!

**DYDDIADAU CODI TOCYNNAU:**

| | |
|---|---|
| Codi tanysgrifiad – 15-16 o Gyngherddau | ddydd Mawrth 26 Gorffennaf |
| Codi tanysgrifiad – 9-14 o Gyngherddau | ddydd Iau 28 Gorffennaf |
| Codi tanysgrifiad – 4-8 o Gyngherddau | ddydd Gwener 29 Gorffennaf |
| Codi tocynnau i gyngherddau sengl – Cyfeillion | ddydd Sadwrn 30 Gorffennaf |
| Codi tocynnau i gyngherddau sengl – y Cyhoedd | ddydd Llun 1 Awst |

Rhif Ffon Grwpiau: 029 2087 8443.
Byddwn yn nodi ceisiadau am seddi penodol, ond does dim dal y byddan nhw ar gael felly dylech gadw lle'n fuan. Os oes arnoch chi eisiau eistedd gyda'ch ffrindiau, rhowch yr archebion i gyd ar yr un pryd.

Mae tanysgrifiadau ar gael yn bersonol neu dros y ffôn. Piciwch i mewn neu roi caniad i'n tîm cyfeillgar yn y Swyddfa Docynnau i archebu.





# SUBSCRIBE NOW TO OUR CONCERT PACKAGES

## BENEFITS OF BOOKING A PACKAGE:

- You can save up to 30% on your tickets and, if you book now, you can pay over six months (interest free), making your money go even further (just ask the Box Office for the standing order form)
- First choice of seats for all our featured concerts this year
- A Subscribers Discount Card
- Buy additional tickets now, or nearer the time, for friends and family at your subscription discount rate
- Buy your programmes in advance and get a discount – £3.00 in advance, £3.50 on the day.

## BENEFITS OF BOOKING ALL 16 CONCERTS:

- An invitation to our party on the opening night of the season
- Two FREE lunchtime concerts of your choice
- A discount card entitling you to 10% off hot drinks and snacks in the Gin Lounge and bars
- The biggest full season subscription discount we have ever offered, making enjoying all the concerts even more affordable
- A whole year of superb concert going to look forward to!

**BOOKING DATES OPEN:**

| | |
|---|---|
| Subscription booking – 15-16 concerts | Tuesday 26th July |
| Subscription booking – 9-14 concerts | Thursday 28th July |
| Subscription booking – 4-8 concerts | Friday 29th July |
| Booking for single concerts – Friends | Saturday 30th July |
| Booking for single concerts – Public booking | Monday 1st August |

Group Telephone Number: 029 2087 8443
We will note requests for specific seats, but allocation is subject to availability so early booking is advisable. If you wish to sit with friends, please include all orders at the same time.

Subscriptions are available in person or over the phone. Pop in or call our friendly Box Office team to book.



RYAN BANCROFT | Llun/Photo: Kirsten McTernan



YEOL EUM SON

Nos Iau 6 Hydref 2022 | Thursday 6 October 2022 | 7:30pm

## CERDDORFA GENEDLAETHOL GYMREIG Y BBC
## BBC NATIONAL ORCHESTRA OF WALES

| | |
|---|---|
| Conductor | Ryan Bancroft |
| Soloist | Yeol Eum Son, piano |
| Rachmaninov | Piano Concerto No 3 |
| Stravinsky | Rite of Spring |

Lansiwn ein tymor 2022-23 â Thrydydd Concerto Piano meistrolgar Rachmaninov. O'i thema agoriadol urddasol hyd y diweddglo sy'n rhythmig ddyrnu, allwch chi ddim llai na syrthio mewn cariad â'r ansawdd cerddorfaol moethus. Mae Rite of Spring Stravinsky yn gallu ein synnu a'n syfrdanu hyd heddiw, yn union fel y gwaeth yn ei première ym Mharis. Mae maint a ffyrnigrwydd y bale yn drawiadol, yn darlunio defod baganaidd – yn ystumiau onglog a symudiadau dan artaith a leddfir gan funudau o brydferthwch a llonyddwch sy'n ddrych o'r gwanwyn a bywyd newydd.

We launch into our 2022-23 season with Rachmaninov's virtuosic Third Piano Concerto. From its dignified opening theme to the rhythmically hammering finale, you cannot fail to fall in love with the lush orchestral texture. Stravinsky's Rite of Spring still has the power to shock and surprise, as it did at its premiere in Paris. Epic in scale and ferocity, the ballet depicts a pagan ritual - the angular contortions and tortured motions are countered by moments of beauty and stillness, reflective of Spring and new life.

**SGWRS CYN Y GYNGERDD: Dr Jonathan James yn cyflwyno'r rhaglen – 6:30pm Lefel 1**

**PRE-CONCERT TALK: Dr Jonathan James introduces the programme – 6:30pm Level 1**







DENNIS RUSSELL DAVIES | Llun/Photo: R Winkler



LAURA VAN DER HEIJDEN | Llun/Photo: Olivia Da Costa

Nos Sadwrn 15 Hydref 2022 | Saturday 15 October 2022 | 7:30pm

## BRNO PHILHARMONIC ORCHESTRA

| | |
|---|---|
| Conductor | Dennis Russell Davies |
| Soloist | Laura van der Heijden, cello |
| Vaughan Williams | Fantasia on a Theme of Thomas Tallis |
| Martinů | Cello Concerto No 1 |
| Janáček | Jealousy |
| Dvořák | Symphony No 9 *From the New World* |

Dyma un o ogoniannau cerddoriaeth Lloegr ar ben rhaglen sy'n cynnwys tri chyfansoddwr mawr o Tsieciad. Mae Concerto Soddgrwth hyfryd Martinů yn heigio gan ddyfeisgarwch telynegol, yn cydasio idiomau gwerin Tsiecaidd ag eglurder Ffrengig, ac agorawd fer drawiadol ydi Jealousy y syniwyd amdani un tro ar gyfer opera Janáček Jenůfa. Ac iddi alawon cofiadwy ac uchafbwyntiau gwefreiddiol, mae Symffoni *From the New World* Dvořák yn curo gan yr egni a dynnodd o'i brofiadau Americanaidd yn Efrog Newydd York ac, yn y 'Largo' enwog, yn deffro yn y cof hiraeth y cyfansoddwr am ei famwlad Bohemia.

One of the crowning glories of English music heads a programme with three of the greatest Czech composers. Martinů's lovely Cello Concerto bursts with lyrical invention, fusing Czech folk idioms and Gallic clarity, while Jealousy is a short impactful overture that was once conceived for Janáček's opera Jenůfa. With memorable tunes and stirring climaxes, Dvořák's *From the New World* Symphony pulses with energy drawn from his American experiences in New York and, in the famous 'Largo', evoking the composer's longing for his native Bohemia.

**SGWRS CYN Y GYNGERDD: Dr Jonathan James yn cyflwyno'r rhaglen – 6:30pm Lefel 1**

**PRE-CONCERT TALK: Dr Jonathan James introduces the programme – 6:30pm Level 1**



TOMÁŠ HANUS | Llun/Photo: Betina Skovbro



JANA KURUCOVA

| Nos Wener 4 Tachwedd 2022 | Friday 4 November 2022 | 7:30pm |
|---|---|---|

## CERDDORFA WNO
## WNO ORCHESTRA

| | |
|---|---|
| Conductor | Tomáš Hanus |
| Soloist | Jana Kurucova, mezzo-soprano |
| Britten | Four Sea Interludes from Peter Grimes |
| Dvořák | Biblical Songs |
| Wagner | Prelude and Liebestod from Tristan and Isolde |
| Janáček | Sinfonietta |

Mae portreadau'r môr yng nghampwaith operatig Britten yn gyforiog o awyrgylch, yn deffro atgofion ym mhwll y galon ac yn darlunio teimladau'n gelfydd. Swyn melodig sydd frenin yng nghasgliad gweddigar Dvořák o ganeuon o'r flwyddyn 1894, ac mae'r Preliwd a'r Liebestod o opera Wagner – a berfformiwyd gyntaf ym Munich ym 1865, wedi'i seilio ar garwriaeth ddrwg ei thynged o'r ddeuddegfed ganrif – yn drwm gan gnawdolrwydd penfweddol a dyheu corfforol. Greddfau theatraidd Janáček sydd amlycaf eu lle yn ffanfferau tanbaid ei Sinfonietta lachar ei sgorio, a'i seinfyd trawiadol sy'n dwyn y noson wefreiddiol i ben.

Britten's atmospheric sea portraits serve as visceral evocations and carefully drawn emotional states within his operatic masterpiece. Melodic charm pervades Dvořák's prayerful song collection from 1894, while a heady sensuality and physical longing saturate the Prelude and Liebestod from Wagner's opera first performed in Munich in 1865 and based on an ill-fated 12th century romance. Janáček's theatrical instincts come to the fore in the blazing fanfares of his vividly scored Sinfonietta, its striking sound world concluding a thrilling evening.

**SGWRS CYN Y GYNGERDD: Dr Jonathan James yn cyflwyno'r rhaglen – 6:30pm Lefel 1**

**PRE-CONCERT TALK: Dr Jonathan James introduces the programme – 6:30pm Level 1**







ROBERTO GONZÁLEZ-MONJAS | Llun/Photo: Marco Borggreve



PAUL LEWIS

| Nos Fercher 9 Tachwedd 2022 | Wednesday 9th November 2022 | 7:30pm |
|---|---|---|

## BELGIAN NATIONAL ORCHESTRA

| | |
|---|---|
| Conductor | Roberto González-Monjas |
| Soloist | Paul Lewis, piano |
| Respighi | Preludio |
| Mozart | Piano Concerto No 25 |
| Saint-Saëns | Symphony No 3 |

Yn ddifrifddwys, yn befriol ac yn wefreiddiol yn eu tro, mae Preludio glasoed Respighi yn waith wedi'i sgorio'n foethus sy'n ennyn diddordeb mwyfwy. O blith y dwsin o concerti mawr i'r piano a sgrifennodd Mozart o fewn tair blynedd pwysfawr yn Fienna, y pumed ar hugain ydi'r hwyaf ac un o'i fwyaf meistraidd. Mae ei fawredd a'i goethni'n gyneddfau mae'n eu rhannu â Symffoni'r *Organ* aruthrol Saint-Saëns – un o weithiau mwyaf arloesol y bedwaredd ganrif ar bymtheg lle mae ffurf a mynegiant wedi'u cyfuno'n odidog mewn gwaith a ystyrir yn frig ei orchestion.

Variously solemn, scintillating and stirring, Respighi's youthful Preludio is a richly scored work of accumulating interest. Of Mozart's dozen great piano concertos written within three momentous years in Vienna, the twenty-fifth is the longest and one of his most magisterial. Its grandeur and refinement are qualities shared in Saint-Saëns's mighty *Organ* Symphony - one of the most innovative works of the 19th century where form and expression are superbly combined in a work regarded as the pinnacle of his achievements.

**SGWRS CYN Y GYNGERDD: Dr Keith Chapin yn cyflwyno'r rhaglen – 6:30pm Lefel 1**

**PRE-CONCERT TALK: Dr Keith Chapin introduces the programme – 6:30pm Level 1**



MARKUS STENZ | Llun/Photo: Kaupo Kikkas



BBC NATIONAL ORCHESTRA OF WALES | Llun/Photo: James Fear

| Nos Iau 17 Tachwedd 2022 | Thursday 17 November 2022 | 7:30pm |
|---|---|---|

## CERDDORFA GENEDLAETHOL GYMREIG Y BBC
## BBC NATIONAL ORCHESTRA OF WALES

| | |
|---|---|
| Conductor | Markus Stenz |
| Mahler | Symphony No 9 |

Roedd Mahler yn dotio at fyd natur a'i anturiaethau yn yr awyr agored yn ei ysbrydoli. Yn ei nawfed symffoni yn anad unman y mae hyn ar ei amlycaf, ynghyd â'i ddiddordeb ysol mewn marwolaeth. Yn y symudiad cyntaf aruthrol, mae hyrddiau dwys yn dilyn adrannau gyda'r tyneraf, yr ail symudiad yn siglo gan ddawnsiau gwerin hamddenol a gosgeiddig, cyn y tywyllwch cythryblus sydd ben ar y trydydd. Mae'r symudiad cyntaf yn wledd i'r glust, a'r diweddglo heb os nac onibai yn hafal iddo. Mae ei awyrgylch angerddol a'i dôn fyfyriol yn gadael argraff ddofn.

Mahler loved nature and found great inspiration in his outdoor adventures. This, combined with his preoccupation of the end, is never more evident than in his ninth symphony. Intense eruptions follow the most gentle of passages in the gargantuan first movement, relaxed and graceful folk dances lilt through the second movement, before a haunting darkness takes over in the third. If the first movement is something to behold, then the finale is certainly its equal. Its fervent atmosphere and reflective tone truly leaves a lasting impression.

**SGWRS CYN Y GYNGERDD: Dr Jonathan James yn cyflwyno'r rhaglen – 6:30pm Lefel 1**

**PRE-CONCERT TALK: Dr Jonathan James introduces the programme – 6:30pm Level 1**







JOHN WILSON | Llun/Photo: Sim Canetty Clarke



MARTIN JAMES BARTLETT | Llun/Photo: Paul Marc Mitchell

| Nos Lun 28 Tachwedd 2022 | Monday 28 November 2022 | 7:30pm |
|---|---|---|

## SINFONIA OF LONDON

| | |
|---|---|
| Conductor | John Wilson |
| Soloist | Martin James Bartlett, piano |
| Walton | Scapino |
| Ravel | Valses Nobles et Sentimentales |
| Gershwin | Rhapsody in Blue |
| Debussy | La Mer |
| Ravel | Boléro (original version) |

Byth ers i John Wilson ei hail-lansio yn 2018, mae ei gerddorfa recordio enwog, Sinfonia of London, yn ysgubo'r byd clasurol. Dyma gerddorfa ddethol sy'n ymhyfrydu mewn adolygiadau pum seren o bob tu ac yn y gamp ddigynsail, sef tair yn olynol o wobrau BBC Music Magazine. Mae un o enillwyr gynt Cerddor Ifanc y Flwyddyn y BBC, Martin James Bartlett, yn amlwg ei le yn Rhapsody in Blue jazzaidd ei oslef Gershwin a'r rhaglen hefyd yn cynnwys darnau stondin cerddorfaol cymwys o drawiadol gan Walton a Debussy, a Boléro enwog Ravel yn ddiweddglo sy'n codi'r galon yn ddiwrthdro.

John Wilson's Sinfonia of London has been taking the classical world by storm since he relaunched this famous recording orchestra in 2018. Basking in wall-to-wall 5 star reviews and with an unprecedented hat-trick of BBC Music Magazine Awards, this hand picked orchestra is an unmissable highlight of this season. Featuring former BBC Young Musician of the Year winner, Martin James Bartlett, in Gershwin's jazz-inflected Rhapsody in Blue, the programme also includes suitably spectacular orchestral showpieces by Walton, Debussy and Ravel, whose famous Bolero provides an irresistibly upbeat finale.

**SGWRS CYN Y GYNGERDD: Dr Keith Chapin yn cyflwyno'r rhaglen – 6:30pm Lefel 1**

**PRE-CONCERT TALK: Dr Keith Chapin introduces the programme – 6:30pm Level 1**







THE SIXTEEN

Dydd Sul 4 Rhagfyr 2022 | Sunday 4 December 2022 | 3:00pm

# THE SIXTEEN

## THE WISE MEN AND THE STAR

| | |
|---|---|
| Lassus | Omnes de Saba |
| Traditional | Angels, from the realms of glory |
| Fricker | A Babe is born |
| James McCarthy | Peaceful was the night |
| Gabriel Jackson | The Christ-child |
| John Rutter | There is a flower |
| Palestrina | Videntes stellam Magi |
| Peter Hayward | The Christ-Child's Lullaby |
| attributed Byrd | Reges Tharsis a5 |
| INTERVAL | |
| Lassus | Videntes stellam Magi |
| Traditional | A Gallery Carol |
| Sheppard | Reges Tharsis |
| Phillip A. Cooke | There is no rose |
| Britten | A Boy was born |
| Oliver Tarney | The wise men and the star |
| Cornelius | The Three Kings |
| Traditional | Past three a clock |
| Traditional | I wonder as I wander |
| Palestrina | Magnificat Quarti toni |

Ers cyn cof ysbrydolwyd cenedlaethau o gyfansoddwyr gan y Tri Brenin yn ymweld â'r baban Iesu. Mae yma gerddoriaeth yn amrywio o glasuron y Dadeni i drefniannau cyfoes a'r doethion ar ganol y llwyfan yn y cyngerdd tymhorol yma. Codwch docynnau rhag blaen i brofi un o'r ensembles corawl mwya'u bri yng ngwledydd Prydain a'ch tretio'ch hun i bnawn o gerddoriaeth arddunol – y wledd Nadolig i'r dim.

**POB SEDD £20 | TOCYNNAU MANTAIS £18 | MYFYRWYR £5** DS: Nid yw'r cyngerdd yma'n rhan o becynnau'r Gyfres Cyngherddau.

**SGWRS CYN Y GYNGERDD: Dr Keith Chapin yn cyflwyno'r rhaglen – 2:00pm Lefel 1**

The visitation of the infant Jesus by the Three Kings has inspired generations of composers from time immemorial. With music ranging from Renaissance classics to contemporary settings, the wise men take centre stage for this seasonal concert. Book now to experience one of the UK's most distinguished choral ensembles and indulge yourself for an afternoon of sublime music – the perfect Christmas treat.

**ALL SEATS £20 | CONCS £18 | STUDENTS £5**
NB: This concert is not part of the Concert Series packages.

**PRE-CONCERT TALK: Dr Keith Chapin introduces the programme – 2:00pm Level 1**



Llun/Photo: James Fear

Dydd Sul 15 Ionawr 2023 | Sunday 15 January 2023 | 3:00pm

## CERDDORFA GENEDLAETHOL GYMREIG Y BBC
## BBC NATIONAL ORCHESTRA OF WALES

| | |
|---|---|
| Conductor | tbc |
| A Celebration of 100 Years of Disney | |

O'r clasuron i'r cartwnau, mae i Disney ei le arbennig iawn yng nghalonnau llawer ohonom. Does dim dwywaith nad ydi plant, oedolion, tedi bêrs, hyd yn oed y ci, wedi gweld Disney, a chanu'r caneuon a morio yn yr hud am ddyddiau wedyn. Dewch at Gerddorfa'r BBC I ddathlu canrif o hud Disney yn y cyngerdd yma gyda cherddoriaeth gerddorfaol fyw, sy'n cynnwys pytiau bywluniedig o'ch hoff gymeriadau, sy'n boblogaidd drwy'r byd yn grwn. Yn addas I bob oed, o'r ifainc i'r ifanc eu bryd!

From the classics to the cartoons, Disney holds a very special place in the hearts of many. Children, adults, teddies, even the dog, can't fail to have seen Disney and be left singing the songs and revelling in the magic for days. Join BBC NOW as they celebrate a century of the magic of Disney at this concert with live orchestral music, featuring animated segments of your favourite characters, popular the world over. Suitable for all ages from the young to the young at heart!

**POB SEDD £20 | TOCYNNAU MANTAIS £18 MYFYRWYR/PLANT £5** DS: Nid yw'r cyngerdd yma'n rhan o becynnau'r Gyfres Cyngherddau.

**ALL SEATS £20 | CONCS £18 | STUDENTS/CHILDREN £5** NB: This concert is not part of the Concert Series packages.

**SGWRS CYN Y GYNGERDD: Dr Jonathan James yn cyflwyno'r rhaglen – 2:30pm Lefel 1**

**PRE-CONCERT TALK: Dr Jonathan James introduces the programme – 2:30pm Level 1**









TOMÁŠ HANUS | Llun/Photo: Betina Skovbro

Dydd Sul 29 Ionawr 2023 | Sunday 29 January 2023 | 3:00pm

## CERDDORFA WNO
## WNO ORCHESTRA

| | |
|---|---|
| Conductor | Tomáš Hanus |
| Smetana | Má Vlast |

Siawns nad y maestro o Tsieciad Tomáš Hanus fydd yr arweinydd delfrydol i bortreadau cerddorol pefriol Smetana o'i annwyl Fohemia ar gadw mewn chwe chathl symffonig o'r enw Má vlast neu 'Fy Mamwlad'. Anaml y'i perfformir yn ei grynswth, felly dyma gyfle gwych i glywed y gwaith yma a'i lawnder o liwiau a enillodd i'w gyfansoddwr ei blwy'n dad cerddoriaeth Tsiecoslofacia. Bu ei première ym Mhrâg ym 1882 yn gyfrwng ennyn golygfeydd o sêl wladgarol, a 'thon o gymeradwyaeth ddiddiwedd ...ar ôl pob un o'r chwe rhan'.

Czech maestro Tomáš Hanus will surely be the ideal guide for Smetana's sparkling musical portraits of his beloved Bohemia enshrined in six symphonic poems known as Má vlast or 'My Homeland'. Seldom performed in its entirety, this is a wonderful chance to hear a rich-hued work that established the composer's reputation as the father of Czech music. Its Prague premiere in 1882 provoked scenes of patriotic fervour with a 'storm of unending applause ...repeated after each of the six parts'.

**SGWRS CYN Y GYNGERDD: Dr Keith Chapin yn cyflwyno'r rhaglen – 2:00pm Lefel 1**

**PRE-CONCERT TALK: Dr Keith Chapin introduces the programme – 2:00pm Level 1**



LUDOVIC MORLOT | Llun/Photo: Lisa Marie Mazzucco



JAMES EHNES | Llun/Photo: Ben Ealovega

Dydd Sul 12 Chwefror 2023 | Sunday 12 February 2023 | 3:00pm

## CERDDORFA A CHORWS GENEDLAETHOL GYMREIG Y BBC
## BBC NATIONAL ORCHESTRA & NATIONAL CHORUS OF WALES

BBC National Orchestra and Chorus of Wales
Cerddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC

| | |
|---|---|
| Conductor | Ludovic Morlot |
| Soloist | James Ehnes, violin |
| Soloist | Rhian Lois, soprano |
| Soloist | Neal Davies, baritone |
| Brahms | Violin Concerto |
| Messiaen | O Sacrum Convivium |
| Fauré | Requiem |

Mae Concerto godidog o delynegol Brahms i'r Ffidil fel pe bai'n mynegi enaid y ffidil. O'i alawon hyfryd, breuddwydiol a mawreddog hyd at sigl hwyliog y diweddglo, mae'r galw digyfaddawd am chwarae meistrolgar yn ei wneud yn ddarn stondin perffaith i unrhyw ffidler. Mae O Sacrum Convivium dieflig o ddyrys Messiaen yn dawel ac yn wylaidd, yn chwyddo'n anterth cyfleugar. I'r gwrthwyneb, mae Requiem Fauré yn dyner ac yn gysurlon, ac arno'n ben ymdeimlad dynol iawn o ffydd mewn gorffwys tragwyddol. Yn gyfareddol yn wir…

**SGWRS CYN Y GYNGERDD: Dr Keith Chapin yn cyflwyno'r rhaglen – 2:00pm Lefel 1**

Brahms' gloriously lyrical Violin Concerto seems to express the very soul of the violin. From its soaring, dreamy and majestic melodies to the boisterous lilt of the finale, its uncompromising demand for virtuoso playing makes it the perfect showcase for any violinist. Messiaen's fiendishly tricky O Sacrum Convivium is hushed and reverent, rising to an expressive peak. In contrast, Faure's Requiem is gentle and comforting, dominated by a very human feeling of faith in eternal rest. Truly spellbinding…

**PRE-CONCERT TALK: Dr Keith Chapin introduces the programme – 2:00pm Level 1**







JUKKA-PEKKA SARASTE



SHEKU KANNEH-MASON | Llun/Photo: Lars Borges

Nos Sadwrn 25 Chwefror 2023 | Saturday 25 February 2023 | 7:30pm

## PHILHARMONIA ORCHESTRA

| | |
|---|---|
| Conductor | Jukka-Pekka Saraste |
| Soloist | Sheku Kanneh-Mason, cello |
| Berlioz | Excerpts from Romeo and Juliet |
| Bloch | Schelomo |
| Sibelius | Symphony No 1 |

Mae portread Ernest Bloch o'r Brenin Solomon o'r Beibl, yn Schelomo, yn dwyn ynghyd y soddgrwth a'r gerddorfa'n angerddol, a'r ysbrydol a'r cnawdol yn ymdoddi yn un o weithiau mwyaf grymus y cyfansoddwr yma o Swisiad. Cyd-ddigwyddodd Symffoni Gyntaf Sibelius ag ymchwydd ton o genedlaetholdeb ac mae'n cychwyn mewn dull dihafal, a dwyster atgofus y clarinét solo a'r timpani'n cyhoeddi gwaith urddasol ei harddwch ac iddo sawl anterth yn nannedd y ddrycin. Mae Rhagarweiniad symffoni ddramatig Berlioz yr un mor drawiadol, ynghyd â phortread rhamantaidd Romeo a golygfa fyw'r ddawns.

Ernest Bloch's portrait of the biblical King Solomon in Schelomo combines cello and orchestra for a passionate evocation where the spiritual and sensual merge in one of this Swiss composer's most powerful works. Coinciding with a rising tide of nationalism, Sibelius's First Symphony opens like no other, and the haunting intensity of solo clarinet and timpani heralds a work of noble beauty and storm-tossed climaxes. Equally arresting is the Introduction to Berlioz's dramatic symphony, along with a romantic portrait of Romeo and a vivid ball scene.



MIRGA GRAŽINYTĖ-TYLA | Llun/Photo: Frans Jansen



VILDE FRANG

Nos Iau 9 Mawrth 2023 | Thursday 9 March 2023 | 7:30pm

## CITY OF BIRMINGHAM SYMPHONY ORCHESTRA

| | |
|---|---|
| Conductor | Mirga Gražinytė-Tyla |
| Soloist | Vilde Frang, violin |
| Schumann | Symphony No 1 |
| Elgar | Violin Concerto |

Mae'r gyntaf o bedair symffoni Schumann yn un o'i weithiau mwyaf gorfoleddus, yn heigio gan asbri a hyder di-ben-draw. Fe'i hysbrydolwyd gan nawfed symffoni Schubert roedd newydd ei ddarganfod ac fe'i brasluniwyd mewn pedwar diwrnod cwta ym mis Ionawr 1841. Yn gymar gwaith Schumann cawn concerto i'r ffidil sydd ymhlith goreuon yr ugeinfed ganrif, a sgrifennodd Elgar pan oedd ar anterth ei alluoedd creadigol. Mae'n waith dihafal o dyner sy'n enwog ar gorn ei gyflwyniad enigmatig 'Herein is enshrined the soul of...'

The first of Schumann's four symphonies is one of his most exuberant works, brimming with vitality and boundless optimism. Sketched in just four days in January 1841, it was inspired by his recent discovery of Schubert's 9th symphony. Schumann's work is partnered by one of the finest of all 20th-century violin concertos, written when Elgar was at the height of his creative powers. It is a work of unparalleled tenderness famous for its enigmatic dedication 'Herein is enshrined the soul of...'

**SGWRS CYN Y GYNGERDD: Dr Jonathan James yn cyflwyno'r rhaglen – 6:30pm Lefel 1**

**PRE-CONCERT TALK: Dr Jonathan James introduces the programme – 6:30pm Level 1**







TADAAKI OTAKA | Llun/Photo: Martin Richardson



SIMONE LAMSMA | Llun/Photo: Otto van den Toorn

Nos Sadwrn 25 Mawrth 2023 | Saturday 25 March 2023 | 7:30pm

## CERDDORFA GENEDLAETHOL GYMREIG Y BBC
## BBC NATIONAL ORCHESTRA OF WALES

| | |
|---|---|
| Conductor | Tadaaki Otaka |
| Soloist | Simone Lamsma, violin |
| Elizabeth Maconchy | Nocturne for Orchestra |
| Britten | Violin Concerto |
| Elgar | Symphony No 2 |

Dyma'r Arweinydd Llawryfog poblogaidd, Tadaaki Otaka, yn dychwelyd i Gerddorfa'r BBC i berfformio ffefrynnau cadarn gan Elgar a Britten, ochr yn ochr â'r Nocturne i Gerddorfa swynol o atgofus gan Elizabeth Maconchy. Ac iddo amwyster ar bigau'r drain, a fynegir drwy gytgordiau cymhleth, themâu telynegol synfyfyriol a motiffau rhythmig bywiog, mae Concerto hynod boblogaidd Britten i'r Ffidil yn sioe feistrolgar eithriadol ei grym. Mae gan gerddoriaeth Elgar le arbennig yng nghalon Tadaaki, a bydd ei Ail Symffoni yn wledd go iawn i gynulleidfaoedd - yn gyngerdd rhy dda i'w golli, does dim dau...

Much-loved Conductor Laureate Tadaaki Otaka returns to BBC NOW for firm favourites by Elgar and Britten, alongside Elizabeth Maconchy's charmingly evocative Nocturne for Orchestra. With edgy ambivalence, expressed through intricate harmonies, lyrically introspective themes and vigorous rhythmic figures, Britten's ever-popular Violin Concerto is a virtuosic display of extraordinary power. The music of Elgar holds a special place in Tadaaki's heart, and audiences are in for a real treat with his Second Symphony - certainly a concert not to be missed...

**SGWRS CYN Y GYNGERDD: Dr Jonathan James yn cyflwyno'r rhaglen – 6:30pm Lefel 1**

**PRE-CONCERT TALK: Dr Jonathan James introduces the programme – 6:30pm Level 1**







RYAN BANCROFT | Llun/Photo: Kirsten McTernan



BOMSORI KIM | Llun/Photo: Kyutai Shim

Nos Iau 20 Ebrill 2023 | Thursday 20 April 2023 | 7:30pm

## CERDDORFA GENEDLAETHOL GYMREIG Y BBC
## BBC NATIONAL ORCHESTRA OF WALES

| | |
|---|---|
| Conductor | Ryan Bancroft |
| Soloist | Bomsori Kim, violin |
| Ives | Central Park in the Dark • The Unanswered Question |
| Szymanowski | Violin Concerto |
| Adams | Harmonielehre |

Eistedd ar fainc yn Central Park ar noson o haf ydi'r seinlun mae Charles Ives yn ei dynnu yn ei ddarn Central Park in the Dark. Mae ei gymar, The Unanswered Question, yn aml yn cael y gair o fod yn athroniaeth ar gerdd, y "cwestiwn parhaol ynghlwm â bodolaeth". Yn y Concerto Cyntaf i'r Ffidil gan Szymanowski mae adrannau llesmeiriol byrlymol yn ildio'u lle i uchelfannau crychdonnog y ffidil solo. Mae Harmonielehre John Adams yn llawn syrpreisys, yn heigio gan egni a'i symudiad cydgordol Lleiafsymiol yn ei sbarduno.

Sitting on a bench in Central Park on a summer's night is the audio-painting Charles' Ives creates in his Central Park in the Dark. Its partner work, The Unanswered Question, is often described as philosophy expressed in music, the "perennial question of existence". Ecstatic, cascading rhapsodic passages make way for the shimmering heights of the solo violin in Szymanowski's First Violin Concerto. John Adams' Harmonielehre is full of surprises, bursting with energy, propelled forward by its Minimalist harmonic movement.

**SGWRS CYN Y GYNGERDD: Dr Jonathan James yn cyflwyno'r rhaglen – 6:30pm Lefel 1**

**PRE-CONCERT TALK: Dr Jonathan James introduces the programme – 6:30pm Level 1**



EVA OLLIKAINEN



STEPHEN HOUGH | Llun/Photo: Sim Canetty-Clarke

| Nos Iau 27 Ebrill 2023 | Thursday 27 April 2023 | 7:30pm |
| --- | --- | --- |

## ICELAND SYMPHONY ORCHESTRA

| | |
| --- | --- |
| Conductor | Eva Ollikainen |
| Soloist | Stephen Hough, piano |
| Thorvaldsdottir | Metacosmos |
| Beethoven | Piano Concerto No 3 |
| Tchaikovsky | Symphony No 5 |

Pan ryddhawyd cylch Beethoven recordiedig Stephen Hough yn 2020 daeth clod i'w ran o bob tu felly mae mawr edrych ymlaen ato'n dod yn ei ôl i Neuadd Dewi Sant i chwarae Trydydd Concerto Piano'r cyfansoddwr. Mae hyrddwynt o symffoni Tchaikovsky yn mynd ar daith bersonol o dywyllwch i oleuni, o anobaith i fuddugoliaeth, a'i motiff 'Tynged' yn ymdroelli drwy bob symudiad cyn dod i'r fei yn rhith ymdeithgan yn y diweddglo tanbaid. Tirwedd gerddorol ddihafal y cyfansoddwr o Wlad yr Iâ, Anna Thorvaldsdottir, sy'n dechrau'r cyngerdd yma.

Stephen Hough's recorded Beethoven cycle received universal acclaim after its 2020 release, so his return to St David's Hall for the composer's Third Piano Concerto is hotly anticipated. Tchaikovsky's barnstorming symphony traverses a personal journey from darkness to light, despair to triumph, and its recurring 'Fate' motif winds its way through each movement before appearing in the guise of a march in the blazing finale. The unique musical landscape of Icelandic composer Anna Thorvaldsdottir launches this concert.

**SGWRS CYN Y GYNGERDD: Dr Jonathan James yn cyflwyno'r rhaglen – 6:30pm Lefel 1**

**PRE-CONCERT TALK: Dr Jonathan James introduces the programme – 6:30pm Level 1**







JAMES FEDDECK | Llun/Photo: Ben Ealovega



DANIEL CIOBANU

| Nos Iau 11 Mai 2023 | Thursday 11 May 2023 | 7:30pm |
| --- | --- | --- |

## CERDDORFA GENEDLAETHOL GYMREIG Y BBC
## BBC NATIONAL ORCHESTRA OF WALES

| | |
| --- | --- |
| Conductor | James Feddeck |
| Soloist | Daniel Ciobanu, piano |
| Anna Clyne | Masquerade |
| Tchaikovsky | Piano Concerto No 1 |
| Rachmaninoff | Symphonic Dances |

Mae Masquerade gan Anna Clyne yn deffro ymdeimlad o ddathlu, gan gyfuno themâu gwreiddiol â hen alawon Lloegr. Mae Concerto Cyntaf angerddol Tchaikovsky i'r Piano yn creu'r un ymdeimlad o achlysur, yn ei ddarnau blodeuog gwych, ei orchestwaith taranllyd, a'i alawon esgynnol. Yn ei gytgordiau moethus a chynneddf rythmig ei arddull ddiweddarach, mae cyfansoddiad cyflawn olaf Rachmaninov, sef Symphonic Dances, yn defnyddio motiffau sy'n deillio o gerddoriaeth Eglwys Rwsia ochr yn ochr â dyfyniadau o'i symffoni gyntaf ei hun gyda chreu cymysgedd gwefreiddiol o hiraeth yn erbyn bwrlwm y ddinas fawr ac egni'r 'America Fodern'.

Anna Clyne's Masquerade evokes a sense of celebration, melding original themes with old English melodies. Stirring a similar sense of occasion is Tchaikovsky's passionate First Piano Concerto, with its fabulous flourishes, thundering bravura, and soaring tunes. With luscious harmonies and the rhythmic characteristic of his later style, Rachmaninov's final complete composition, Symphonic Dances, uses motifs derived from Russian Church music alongside quotes from his own first symphony, creating a stirring mix of nostalgia versus the big city bustle and energy of 'Modern America'.

**SGWRS CYN Y GYNGERDD: Dr Jonathan James yn cyflwyno'r rhaglen – 6:30pm Lefel 1**

**PRE-CONCERT TALK: Dr Jonathan James introduces the programme – 6:30pm Level 1**



DALIA STASEVSKA | Llun/Photo: Jarmo Katila



NICOLA BENEDETTI | Llun/Photo: Simon Fowler

Nos Sadwrn 20 Mai 2023 | Saturday 20 May 2023 | 7:30pm

## THE HALLÉ

| | |
|---|---|
| Conductor | Dalia Stasevska |
| Soloist | Nicola Benedetti, violin |
| Soloist | Sheku Kanneh-Mason, cello |
| Soloist | Benjamin Grosvenor, piano |
| Sibelius | Karelia Suite |
| Beethoven | Concerto for Violin, Cello and Piano (*Triple*) |
| Andrea Tarrodi | Paradisfåglar II (*Birds of Paradise*) |
| Sibelius | Symphony No 7 |

Y ddau mwyaf cyforiog o awyrgylch o blith gweithiau Sibelius sydd o bob tu'r rhaglen fentrus yma: sêl genedlgarol ei Gyfres Karelia a harddwch gerwin ei symffoni olaf. Anaml y perfformir *Concerto Triphlyg* Beethoven felly dyma gyfle gwych i glywed tri unawdydd gyda goreuon y byd mewn gwaith sy'n troi a throelli'n annisgwyl ac sy'n dod i ben mewn diweddglo gorchestol. Un o gyfansoddwyr ifainc mwyaf cyffrous Sweden sy'n dwyn y noson i'w therfyn. Does dim dwywaith nad erys Paradisfåglar II Andrea Tarrodi yn fyw yn y cof.

